

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio yn ein gweddïau am Maldwyn Jones (Cefn Berain) sydd bellach yn ôl yn yr Inffymari. Diolchwn amdano ac am bob gofal y mae'n ei gael yn yr ysbyty, ac am ofal cariadus y teulu hefyd. Hyderwn y bydd yn gwella'n fuan, ac y bydd iddo brofi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i William Ellis Roberts (Hiraethog) fydd, os Duw a'i mynn, yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 dydd lau. Diolchwn i Dduw amdano, gan hyderu y bydd yn parhau i gael nerth ac iechyd.

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD** yn Llanefydd nos lau, Gorffennaf 25ain am 7.30.
- **COLEG Y BALA:**
 - **Cwrs Ieuencid (Blwyddyn 7-11)** – Gorffennaf 29ain - Awst 2il.
 - **Anrhefn Awst (8-11 oed)** – Awst 12fed – 15fed.
 - **Souled Out (15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc)** – Awst 17eg – 23ain.
Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau. (Os bydd y coffrau'n caniatáu, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau.
- **OEDFA ARBENNIG I'R FRO AC I GYMRU GYFAN** ar Sul cyntaf yr Eisteddfod am 5.00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan. Edrychwn ymlaen i groesawu yr Archdderwydd Dr Christine James a'i gŵr, Dr E. Wyn James i'n plith, a hefyd pobl o bob cwr o Gymru.
- **ADNABOD CYMDEITHASOL** - Taith Gerdded Hamddenol yn ardal Llanfair Talhaiarn nos Fercher, Awst 21ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **O GAPEL I GAPEL GYNT** – 14 milltir ar 14 Medi. Taith gerdded efo Rhys Dafis o gwmpas cyn gapeli ardal Llansannan: Horeb, Bryn Seion, Nantwnen, Glanrhyd, Penycefn, Hebron a Tanyfron. Tro efo ychydig o her, tipyn o hanes, a llawer o fwynhad. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA ARBENNIG I'R FRO** bore Sul, Medi 15fed i groesawu 18 o gyfeillion o'r India, y rhan fwyaf ohonynt yn weinidogion. Bydd yr oedfa yn cychwyn am 10.30 a bydd yr ymwelwyr yn aros i gael cinio hefo ni. Gwahoddwn bawb i ddod â chinio hefo nhw fel y cawn amser i gymdeithasu ac i fwynhau cwmniaeth yn dilyn yr oedfa.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14^{eg} Gorffennaf 2013

Darlleniad y Dydd

1 Samuel 25:1–8

(BCND tud.273 / BCN: tud.249)

www.eglwsibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes iawn i bawb ohonoch i'n gwahanol oedfaon trwy'r ofalaeth heddiw. Diolchwn i Dduw am gyfle o'r newydd i'w geisio ac, wrth Ei addoli, gweddiwn ar iddo'n galluogi i 'amgyffred beth yw lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist, a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth.' (Effesiaid 3:18–19)

Ydych chi wedi bod yn mwynhau'r tywydd braf? Cyfle i wneud ychydig o arddio a hamddena o bosib, neu ydi hi'n dywydd sy'n golygu mwy fyth o waith caled a chwyslyd?! Felly y mae hi i'r rhai sydd yng nghanol y cynhaeaf gwair neu'r cneifio ar hyn o bryd, gweithio fel lladd nadroedd i wneud y mwyaf o'r tywydd ffafril – gobeithio yr aiff popeth yn esmwyth i chi! Sefyllfa debyg iawn sy'n ein darlleniad ar y cyd heddiw. Yn 1 Samuel 25 cawn hanes Dafydd yn gofyn i ffermwr cyfoethog o'r enw Nabal am ychydig o fwyd i'w wŷr. Roedd hwnnw ynghanol cneifio rhai o'i filoedd o ddefaid a geifr a Dafydd a'i ddynton wedi bod yn gymorth iddo gan ddiogelu rhai o'i anifeiliaid a'r cneifwyr yn yr anialwch. Er gwaethaf gofal Dafydd dros ei braidd a'r arferiad cyffredin i fwydo teithwyr, swta ac angharedig fu Nabal. Petaem yn bod yn onest, mae'n siŵr mai cydymdeimlo hefo Nabal y byddem yn tueddu i'w wneud, oni bai am ddyfarniad yr awdur, ei weision a hyd yn oed ei wraig fod Nabal yn ddihiryn ynfyd! (1 Samuel 25:25)

Doedd yna neb byth yn gofyn dim ganddo oherwydd ei fod mor annifyr – a chafodd Dafydd flas o hynny drosto'i hun. Mor wahanol ydi hi i ni wrth droi at ein Harglwydd. Nid ein gyrru i ffwrdd yn swta a wna Iesu ond ein hannog i ddod ato fel plant, yn waglaw, a chael derbyn y pethau da y mae'n Tad Nefol am ei roi i'w blant trwy ras, wrth i ni ymddiried yn ei unig Fab. Mae Iesu yn cymell ei ddisgyblion i fod yn daer mewn gweddi ac i bwysu a disgwyl yn eiddgar am yr hyn sydd gan Dduw iddynt. Mae'n eu hatgoffa:

'Am hynny, os ydych chiwi, sy'n ddrwg, yn medru rhoi rhoddion da i'ch plant, gymaint mwy y rhydd eich Tad sydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai sy'n gofyn ganddo!' (Mathew 7:7-11)

Diolch am Waredwr ac Arglwydd mor hael, tyner a chadarn – molwn Ef heddiw a thrwy'r wythnos sydd i ddod beth bynnag y byddwn yn ei wneud.

Rhodri

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Robin Fferwd, a bydd Celfyn yn pregethu.
- Llun • **Cwrs Rhianta** yn y Granar, Llansannan am 7.45.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Cyflwyniad syml i Gristnogaeth** – Cynhelir yr ail sesiwn yn Ffestri Capel Llanefydd am 7.30 i'r rhai 15+ sy'n ystyried dod yn aelodau cyflawn o'r eglwys.
- Mercher • **Adnabod Cymdeithasol** - Taith Gerdded Hamddenol. Cychwyn ger y capel yn Henllan am 6.30.
- Gwener • **CICio Cwsg** yn Ffestri Llansannan o 7.30 nos Wener tan 7.30 bore Sadwrn er mwyn codi arian tuag at elusen o dan ofal Eglwys Bresbyteraidd Mizoram, India (mwy o fanylion gyferbyn). Cysylltwch â Rhodri i gael ffurflen ganiatâd neu ffurflen noddi.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sadwrn Taith Gerdded Capel Tanyfron yn cychwyn yn ardal Deganwy am 10.30. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sian Fferwd (870230).
- Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Cefnogi elusen o dan ofal Eglwys Bresbyteraidd Mizoram

Mae CIC am gynnal noson ddi-gwsg noddedig yn Ffestri Llansannan nos Wener, Gorffennaf 19eg. Bwriadant godi arian eleni tuag at elusen o dan ofal Eglwys Bresbyteraidd Mizoram, yr India, gan fod Gwawr Davies, Cefn Meiriadog (un o arweinwyr CIC) yn ymweld â'r eglwys yno ar hyn o bryd. Byddai'r ieuentid yn falch petaech yn eu noddi, neu gallwch gyfrannu trwy law Aneurin, Rhodri neu Mair. Byddem yn ddiolchgar o dderbyn pob cyfraniad erbyn diwedd Gorffennaf, os gwelwch yn dda.

Bu inni dderbyn casgliad o £200 yn ystod yr Oedfa i-Grist a'r Oedfa o Fawl ar y Sul arbennig i'r Fro ddiwedd Mehefin. Bydd yr arian hwnnw hefyd yn cael ei roi i'r un elusen. Diolch i bawb am eich haelioni.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.